**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

31 Mai 2012

Annwyl Lesley

**Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)**

Yn ei gyfarfod ar 30 Mai 2012, trafododd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei gwmpas a'r ffordd ymlaen o ran ei waith craffu ar Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn ystod Cyfnod 1, a chytunodd arnynt.

Bu'r Pwyllgor yn trafod darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth a chyfeiriodd yn benodol at y pwerau sydd wedi'u darparu i Weinidogion Cymru bennu (drwy reoliadau) bod categorïau penodol o sefydliadau yn cael eu heithrio o'r angen i gael eu sgorio (Adran 2 (6)(a)) a'r lle a'r man cywir i arddangos sticeri sgôr hylendid bwyd (Adran 7(3)).

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd trafodaethau ynghylch rheoliadau eithrio yn cael eu cynnal yn amodol ar gwblhau Cyfnod 1. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi eich bod wedi nodi yn eich datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mai 2012 y bydd y rheoliadau hyn, a rheoliadau eraill a gaiff eu darparu yn y Bil, yn cael eu hystyried yn llawn yn amodol ar gwblhau Cyfnod 2.

Fodd bynnag, er mwyn cynorthwyo â'r gwaith yng Nghyfnod 1, mae'r Pwyllgor yn gofyn i chi ystyried cyhoeddi'r rheoliadau drafft yn gynt. Byddai hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor i gael eglurhad ynghylch cwmpas y Bil ac yn sicrhau ei fod yn gallu ymgynghori'n briodol. Yn ogystal, byddai'n gymorth i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried a yw'r Bil yn cynnwys cydbwysedd rhesymol rhwng y pwerau sydd ar wyneb y Bil a'r pwerau a gaiff eu cyflwyno gan y Rheoliadau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried hyn, ac edrychaf ymlaen at eich ateb.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8041
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Yn gywir

Mark Drakeford AC
Cadeirydd